03/10/2018

Annwyl Syr / Madam,

Yn dilyn cyhoeddi ein Hadolygiad Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae, gwnaethom ymrwymo i ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau gyda'r nod o sicrhau bod y rhain ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2019.

Mae'r cymwysterau newydd wrthi'n cael eu datblygu, a byddant yn cael eu cyflwyno gan y Consortiwm o gyrff dyfarnu sy'n cynnwys City and Guilds of London Institute a CBAC. Maent wedi'u cynllunio i leihau cymhlethdod, lleihau'r baich asesu a sicrhau bod dysgwyr, ar ôl iddynt gwblhau eu rhaglen astudio, yn barod i astudio ymhellach neu weithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a sectorau Gofal Plant gyda'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau diweddaraf.

Fel unrhyw waith diwygio o'r maint hwn, rydym yn ymwybodol o'r newidiadau y bydd angen i ddysgwyr, hyfforddwyr, aseswyr, canolfannau a chyflogwyr eu gwneud. Rwyf bellach yn ysgrifennu i sôn am y cynnydd a wnaed er mwyn i chi allu paratoi ar gyfer y newid o'n blaenau.

Bydd y cymwysterau canlynol ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2019:

- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
• 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
• 01633 373 222

Bydd cyflwyno'r cymwysterau hyn yn galluogi tua 80% o ddysgwyr sydd am astudio ar gyfer cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant i gofrestru i astudio ar gyfer cymhwyster diwygiedig o fis Medi 2019.

Mae'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu a chyflwyno'r cymwysterau newydd hyn yn sylweddol, ac rydym wedi gofyn i'r sector faint o newid sydd ei angen i'w cyflwyno'n effeithiol. Ar ôl ystyried ystod o ffactorau a safbwyntiau'n ofalus iawn, rydym wedi penderfynu **gohirio** cyflwyno nifer o'r cymwysterau newydd, er mwyn sicrhau bod y gyfres newydd o gymwysterau'n cael ei gweithredu'n raddol. Y cymwysterau sydd wedi'u gohirio yw:

- TAG UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Tystysgrif/Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4 Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Arbenigedd
- Lefel 4 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gydag Arbenigedd
- Lefel 4 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Rydym yn amcangyfrif y bydd gohirio cyflwyno'r cymwysterau yn effeithio ar lai nag un ym mhob pum dysgwr yn y sector.

Rhesymau dros gyflwyno'n raddol

Mae diwygio'r cymwysterau hyn yn ddatblygiad mawr i'r sector addysg yng Nghymru. Dyna pam mae angen ei wneud yn ofalus er budd dysgwyr, athrawon a chanolfannau.

O ystyried maint y newidiadau, credwn mai'r peth cywir yw cyflwyno'r gyfres newydd o gymwysterau dros ddwy flynedd yn hytrach na blwyddyn. Dysgwyr yw ein blaenoriaeth wrth wneud y penderfyniad hwn, a bydd cyflwyno'r cymwysterau newydd yn raddol yn rhoi amser ychwanegol i ganolfannau baratoi ar eu cyfer.

Wrth wneud y penderfyniad hwn, rydym wedi ystyried sawl peth, gan gynnwys:

- Nifer y dysgwyr y bydd y penderfyniad i ohirio cyflwyno cymwysterau penodol yn effeithio arnynt – rydym wedi blaenoriaethu'r cymwysterau hynny y bydd y nifer uchaf o ddysgwyr yn astudio ar eu cyfer;
- Faint o newid sydd ei angen a'r hyfforddiant sydd ei angen ar staff i newid cynnwys a/neu arferion asesu yn effeithiol o gymharu â'r cymwysterau cyfatebol presennol;
- Y pryderon a godwyd gan rai rhanddeiliaid ynghylch y newid y byddai canolfannau'n ei brofi wrth gyflwyno'r holl gymwysterau ar yr un pryd; ac y gallai cyflwyno'r cymwysterau yn raddol fod yn well;
- Yr amser sydd ei angen i ddatblygu cymwysterau dwyieithog o ansawdd a'r amser sydd ei angen i baratoi'r sector ar gyfer cyflwyno'r cymwysterau newydd.

- Mae cyflwyno'r cymwysterau newydd yn raddol yn caniatáu'r dilyniant naturiol o un lefel o gymhwyster i'r llall, er enghraifft, y cymhwyster TGAU yn arwain at y Safon UG a'r Safon Uwch.

Cymwysterau amgen sydd ar gael

Rydym wedi cysylltu â'r cyrff dyfarnu sydd, ar hyn o bryd, yn cyflwyno'r cymwysterau a gaiff eu disodli gan y gyfres newydd, a gallwn gadarnhau y bydd y cymwysterau canlynol yn dal i fod ar gael nes bod y cymwysterau a ohiriwyd yn barod:

- TAG UG a Safon Uwch CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Sengl)
- BTEC Lefel 3 Pearson mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Tystysgrif, Diploma, Tystysgrif Estynedig a Diploma Estynedig)
- Diploma Lefel 5 City and Guilds mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Iechyd
- Diploma Lefel 5 City and Guilds mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

Os ydych yn cyflwyno cymwysterau cyfatebol ar hyn o bryd nad ydynt wedi'u rhestru uchod, rhowch wybod i ni er mwyn i ni fynd at y corff/cyrff dyfarnu dan sylw.

Beth mae hyn yn ei olygu i ganolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster TAG UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

Mae'r dull cyflwyno graddol hwn yn debygol o fod o fudd i ganolfannau, gan y bydd hynny'n galluogi athrawon i ymgyfarwyddo â deunydd, arferion asesu a chynnwys newydd y cymhwyster TGAU newydd o fis Medi 2019 cyn cyflwyno'r cymhwyster UG a Safon Uwch newydd ym mis Medi 2020. Bydd dysgwyr sy'n cofrestru i astudio ar gyfer y cymhwyster UG a Safon Uwch ym mis Medi 2019 yn cofrestru i astudio cymhwyster UG a Safon Uwch presennol CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Beth mae hyn yn ei olygu i ganolfannau sy'n cyflwyno'r Dystysgrif a'r Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Mae'r dull cyflwyno graddol hwn yn galluogi staff addysgu i ymgyfarwyddo â deunydd, arferion asesu a chynnwys newydd y cymhwyster Lefel 2 newydd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destun o fis Medi 2019 cyn cyflwyno'r cymhwyster Lefel 3 newydd ym mis Medi 2020. Bydd dysgwyr sy'n cofrestru i astudio ar gyfer cymwysterau Lefel 3 sy'n seiliedig ar wybodaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Medi 2019 yn cofrestru i astudio ar gyfer y cymwysterau BTEC Cenedlaethol presennol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (neu gymwysterau amgen sydd ar gael).

Beth mae hyn yn ei olygu i ganolfannau sy'n cyflwyno cymwysterau Arwain a Rheoli Lefel 4 a Lefel 5 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Bydd y cymwysterau Arwain a Rheoli Lefel 4 a Lefel 5 newydd ar gael erbyn mis Medi 2020 fan bellaf, a gall rhai ohonynt fod ar gael o fis Ionawr 2020; byddwn yn rhoi'r wybodaeth

ddiweddaraf i chi am gynnydd wrth eu datblygu. Bydd cymwysterau a llwybrau ar gael i ddysgwyr o hyd yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys:

- Diploma Lefel 5 City and Guilds mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Iechyd
- Diploma Lefel 5 City and Guilds mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- Tystysgrif Prifysgol Lefel 4 mewn Camu Ymlaen i Reoli (Gofal Cymdeithasol Cymru)

Beth mae hyn yn ei olygu i ganolfannau sy'n bwriadu cynnig y cymwysterau Lefel 4 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gydag Arbenigedd

Yn dilyn yr adborth cynhwysfawr a gafwyd wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym wrthi'n ystyried y dull mwyaf priodol o ddatblygu'r cymwysterau hyn gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, y GIG yng Nghymru a'r consortiwm o gyrff dyfarnu. Mae hyn yn cynnwys yr amrywiaeth o arbenigeddau i'w cynnig a maint a strwythur y cymwysterau.

Beth mae hyn yn ei olygu i ganolfannau sy'n cyflwyno cymwysterau Lefel 1

Fel rhan o'n rhaglen ddiwygio, nid ydym yn datblygu unrhyw gymwysterau Lefel 1 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol na Gofal Plant. Gall cyrff dyfarnu sy'n cyflwyno'r cymwysterau hyn ar hyn o bryd barhau i gyflwyno eu cymwysterau Lefel 1 i ni er mwyn gweld a ydynt yn gymwys i gael arian cyhoeddus. Os yw eich canolfan yn cyflwyno cymwysterau Lefel 1 yn y maes hwn ar hyn o bryd ac am barhau i wneud hynny, cysylltwch â'ch corff dyfarnu.

Cymwysterau a chofrestru a rheoleiddio'r gweithlu

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n cytuno â'n penderfyniad i ohirio cyflwyno'r cymwysterau hyn. Oherwydd hynny, mae wedi ymrwymo i sicrhau bod ei Fframwaith Cymwysterau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gofrestru yn adlewyrchu'r cymwysterau priodol, p'un a ydynt yn rhai presennol neu'n rhai a ddiwygiwyd.

Adnoddau a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Fel rhan o'r rhaglen ddiwygio, mae'r Consortiwm o gyrff dyfarnu yn ymgymryd â rhaglen hyfforddiant, a bydd yn trefnu digwyddiadau ac adnoddau cyhoeddi i helpu i gyflwyno'r cymwysterau newydd. Cyfeiriwch at wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru i gael rhagor o wybodaeth.

Rydym yn gwybod bod gwaith diwygio cymwysterau o'r maint hwn yn dasg fawr, a dyna pam mae angen bod yn ddiwyd ac yn ofalus wrth bennu amserlenni ar gyfer eu haddysgu am y tro cyntaf er budd dysgwyr, athrawon, canolfannau a'r sector yn y pen draw. Drwy gyflwyno'r cymwysterau newydd hyn dros ddwy flynedd yn hytrach na blwyddyn, rydym yn gwerthfawrogi na fydd rhai yn cael eu cyflwyno'n unol â'u hamserlenni gwreiddiol.

Fodd bynnag, o ystyried popeth, credwn mai cyflwyno'r cymwysterau'n raddol yw'r dull gweithredu mwyaf effeithiol. Mae rhagor o wybodaeth am y diwygiadau, y cymwysterau

sydd ar gael, eu diben ac unrhyw reoliadau yn ymwneud â'r gweithlu sy'n gysylltiedig â nhw ar gael yn:

www.cymwysteraucymru.org

www.dysguiechydagofal.cymru/ (gwefan y Consortiwm o gyrff dyfarnu)

www.qiw.wales (cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru)

www.gofalcymdeithasol.cymru

Os oes gennych ragor o gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni yn development@qualificationswales.org

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr

Atodiad A

Bydd y cymwysterau diwygiedig canlynol ar gael i'w haddysgu gyntaf **o fis Medi 2019**

TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

Bydd y cymhwyster hwn yn cyflwyno dysgwyr i ystod eang o rolau yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IGC) a Gofal Plant. Bydd y cymhwyster hwn yn disodli'r cymwysterau TGAU presennol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Datblygiad Plant, a chymwysterau cyfatebol eraill. Caiff y cymhwyster hwn ei gynnig fel dyfarniad sengl a dwbl. Mae hwn yn gymhwyster sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2: Craidd

Bydd y cymhwyster newydd hwn yn rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr mewn lleoliad DSW, Colegau Addysg Bellach (AB) a 6ed Dosbarth Ysgolion o'r cysyniadau allweddol ym maes IGC a bydd yn darparu'r wybodaeth sylfaenol er mwyn cefnogi'r gwaith o gwblhau nifer o'r cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 a 3 yn y gyfres. Caiff dysgwyr eu hannog yn gryf i gwblhau'r cymhwyster hwn cyn cymwysterau lefel 2 neu 3 eraill o fewn y gyfres newydd, neu ochr yn ochr â nhw. Mae'r cymhwyster hwn yn adlewyrchu *Fframwaith Sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol*.

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 2: Craidd

Bydd y cymhwyster newydd hwn yn rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr mewn lleoliad DSW, Colegau AB a 6ed Dosbarth Ysgolion o'r cysyniadau allweddol ym maes GChDDP a bydd yn darparu'r wybodaeth sylfaenol er mwyn cefnogi'r gwaith o gwblhau nifer o gymwysterau GChDDP Lefel

2 a 3 yn y gyfres. Caiff dysgwyr eu hannog yn gryf i gwblhau'r cymhwyster hwn cyn cymwysterau lefel 2 neu 3 eraill o fewn y gyfres newydd, neu ochr yn ochr â nhw. Mae'r cymhwyster hwn yn gymaradwy â'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2: Craidd.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2: Egwyddorion a Chyd-destunau

Mae'r cymhwyster hwn yn ymgorffori gwybodaeth a chyd-destunau. Caiff y cymhwyster ei lunio ar gyfer dysgwyr sy'n astudio mewn Coleg AB. Bydd dysgwyr yn cwblhau amrywiaeth o bynciau cyd-destunol i'w galluogi i archwilio amrywiaeth o lwybrau cyflogaeth. Caiff dysgwyr eu hannog yn gryf i astudio cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (llwybrau Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc) ochr yn ochr â'r cymhwyster hwn. Bydd y gwaith/lleoliad gwaith yn y cymhwyster yn asesu elfennau o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr.

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 2: Ymarfer a Theori

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys gwybodaeth ac ymarfer. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr sy'n astudio mewn Colegau AB a lleoliadau DSW. Caiff dysgwyr eu hannog yn gryf i astudio cymhwyster Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd ochr yn ochr â'r cymhwyster hwn. Bydd gofyniad i ymgymryd â gwaith/lleoliad gwaith yn y cymhwyster hwn o 280 o oriau.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2: Ymarfer (Oedolion)

Cymhwyster sy'n seiliedig ar ymarfer a fydd yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr sy'n astudio'n llawn-amser mewn Coleg AB neu drwy leoliad DSW. Caiff dysgwyr eu hannog yn gryf i astudio'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (llwybr Oedolion) ochr yn ochr â'r cwrs hwn. Bydd angen i ddysgwyr sy'n astudio'r cymhwyster hwn yn llawn amser mewn Coleg AB gwblhau lleoliad gwaith wedi'i asesu.

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 2: Ymarfer

Cymhwyster sy'n seiliedig ar ymarfer ac yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr mewn lleoliad DSW neu'n astudio'n llawn amser mewn Coleg AB. Bydd y cymhwyster yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr drwy waith/lleoliad gwaith. Caiff dysgwyr eu hannog yn gryf i astudio'r cymhwyster Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd ochr yn ochr â'r cymhwyster hwn. Bydd llwyddo i gwblhau'r cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i weithio fel ymarferydd gofal plant cymwysedig â goruchwyliaeth.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3: Ymarfer (Oedolion)

Cymhwyster sy'n seiliedig ar ymarfer a fydd yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn lleoliad perthnasol sy'n canolbwyntio ar oedolion, a gellir ei gyflwyno drwy leoliad DSW. Caiff dysgwyr eu hannog yn gryf i astudio'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (llwybr Oedolion) ochr yn ochr â'r cwrs hwn. Mae angen i ddysgwyr fod wedi'u cyflogi mewn gwaith perthnasol er mwyn ymgymryd â'r cymhwyster hwn. Yn wahanol i'r cymhwyster lefel 2, ni ellir ymgymryd â hwn tra ar leoliad gwaith. Bydd gan y cymhwyster hwn bwyntiau tariff UCAS.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)

Cymhwyster sy'n seiliedig ar ymarfer ac yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn lleoliad perthnasol sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc, a gellir ei gyflwyno drwy leoliad DSW. Caiff dysgwyr eu hannog yn gryf i astudio cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd ochr yn ochr â'r cwrs hwn. Mae angen i ddysgwyr fod wedi'u cyflogi mewn gwaith perthnasol er mwyn ymgymryd â'r cymhwyster hwn. Bydd gan y cymhwyster hwn bwyntiau tariff UCAS.

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3: Ymarfer a Theori

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys gwybodaeth ac ymarfer. Bydd y cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr mewn Colegau AB a lleoliadau DSW. Caiff dysgwyr eu hannog yn gryf i astudio'r cymhwyster Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd ochr yn ochr â'r cymhwyster hwn. Cyflwynir y cymhwyster hwn i fyfyrwyr sy'n astudio'n llawn amser mewn Coleg AB a bydd angen iddynt gynnwys lleoliad gwaith wedi'i asesu o 700 o oriau. Bydd gan y cymhwyster hwn bwyntiau tariff UCAS.

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3: Ymarfer

Cymhwyster sy'n seiliedig ar ymarfer ac yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr mewn lleoliad DSW neu'n astudio'n llawn amser mewn Coleg AB. Bydd y cymhwyster yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr drwy waith/lleoliad gwaith. Caiff dysgwyr eu hannog yn gryf i astudio'r cymhwyster Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd ochr yn ochr â'r cymhwyster hwn. Bydd gan y cymhwyster hwn bwyntiau tariff UCAS.

Bydd y cymwysterau diwygiedig canlynol ar gael **o fis Medi 2020 ymlaen**:

Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Cymhwyster sy'n seiliedig ar wybodaeth. Caiff y cymhwyster hwn ei lunio i'w gyflwyno i ddysgwyr mewn Colegau AB, ond gellir ei gyflwyno gan ysgolion hefyd, lle y bo'n briodol. Caiff dysgwyr eu hannog yn gryf i astudio un llwybr o'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd ochr yn ochr â'r cwrs hwn. Bydd pwynt ymadael ar gael yng nghanol y cymhwyster hwn, a fydd yn arwain at Dystysgrif mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau. Bydd gan y cymhwyster hwn leoliad gwaith wedi'i asesu dewisol. Bydd gan y cymhwyster hwn bwyntiau tariff UCAS.

Y cymhwyster cyfatebol presennol a fydd ar gael ym mis Medi 2019: Cymhwyster BTEC Cenedlaethol Lefel 3 Pearson mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Tystysgrif, Diploma, Tystysgrif Estynedig a Diploma Estynedig)

TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

Cymhwyster sy'n seiliedig ar wybodaeth. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio i'w gyflwyno i ddisgyblion 6ed dosbarth ysgolion a dysgwyr mewn Colegau AB. Bydd dau ardystiad (teitlau amrywiol) yn gysylltiedig â'r cymhwyster hwn sy'n dibynnu ar yr unedau a ddilynir – (Iechyd a Gofal Cymdeithasol) neu (Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar). Bydd y cymhwyster hwn yn disodli'r cymwysterau Safon Uwch presennol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a chymwysterau cyfatebol. Bydd pwynt ymadael ar gael yng nghanol y cymhwyster hwn ar lefel UG. Bydd gan y cymhwyster hwn bwyntiau tariff UCAS.

Y cymhwyster cyfatebol presennol a fydd ar gael ym mis Medi 2019: TAG Uwch Gyfrannol ac Uwch CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Sengl)

Bydd y cymwysterau diwygiedig canlynol ar gael ar adegau gwahanol **yn 2020**:

Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Arbenigedd Lefel 4

Cymhwyster lefel 4 sy'n seiliedig ar ymarfer ar gyfer dysgwyr sy'n anelu at arbenigo mewn maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr 19 oed a throsodd. Bydd y dysgwyr yn dewis un o nifer o feysydd allweddol i arbenigo ynddo. Bydd angen i ddysgwyr fod mewn gwaith perthnasol er mwyn ymgymryd â'r cymhwyster hwn. Ni ellir ymgymryd â'r cymhwyster hwn ar leoliad gwaith.

Y cymhwyster cyfatebol presennol a fydd ar gael ym mis Medi 2019: Dd/B – cymhwyster newydd yw hwn, heb gymhwyster cyfatebol ar hyn o bryd

Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 4

Caiff y cymhwyster hwn sy'n seiliedig ar wybodaeth ei lunio ar gyfer dysgwyr 19 oed a throsodd sy'n bwriadu symud ymlaen i rolau rheoli yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IGC). Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio fel cymhwyster 'cam pontio' i ddysgwyr sydd am symud ymlaen i Lefel 5. Mae'r cymhwyster hwn yn rhagofyniad ar gyfer y cymhwyster Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer Lefel 5.

Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 4

Cymhwyster sy'n seiliedig ar wybodaeth yw hwn ar gyfer dysgwyr sy'n bwriadu symud ymlaen i rolau rheoli yn y sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr 19 oed a throsodd. Mae'r cymhwyster hwn yn rhagofyniad ar gyfer cymhwyster Arwain a Rheoli Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 5.

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gydag Arbenigedd Lefel 4

Cymhwyster sy'n seiliedig ar ymarfer yw hwn ar gyfer dysgwyr sy'n anelu at arbenigo mewn maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr 19 oed a throsodd. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynnwys yn y gyfres newydd, gan gydnabod yr angen am Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn y sector ar gyfer arbenigeddau penodol. Bydd angen i ddysgwyr fod mewn gwaith perthnasol er mwyn ymgymryd â'r cymhwyster hwn. Ni ellir ymgymryd ag ef ar leoliad gwaith. Bydd y dysgwyr yn dewis o isafswm o bedwar llwybr allweddol i arbenigo ynddynt.

Y cymhwyster cyfatebol presennol a fydd ar gael ym mis Medi 2019: Dd/B – cymhwyster newydd yw hwn, heb gymhwyster cyfatebol ar hyn o bryd

Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 5: Ymarfer

Cymhwyster sy'n seiliedig ar ymarfer yw hwn, sydd wedi'i lunio ar gyfer y sawl sy'n ymgymryd â rôl arwain neu reoli yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IGC). Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr 19 oed a throsodd. Gofynnir i ddysgwyr gwblhau'r cymhwyster Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 4 neu gymhwyster cymaradwy cyn ymgymryd â'r cymhwyster hwn. Bydd cwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus yn galluogi dysgwyr i wneud cais i gofrestru gydag GCC fel Rheolwr Cofrestredig, ar yr amod eu bod hefyd yn bodloni'r gofynion cofrestru eraill.

Y cymhwyster cyfatebol presennol a fydd ar gael ym mis Medi 2019: Diploma Lefel 5 City & Guilds mewn Arwain ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 5: Ymarfer

Cymhwyster sy'n seiliedig ar ymarfer yw hwn ar gyfer y rhai sydd â rôl arwain neu reoli yn y sector Gofal Plant. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr 19 oed a throsodd. Gofynnir i ddysgwyr gwblhau'r cymhwyster Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli mewn Gofal, Dysgu, Datblygiad a Chwarae Plant Lefel 4 neu gymhwyster cymaradwy cyn ymgymryd â'r cymhwyster hwn. Bydd cwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus yn galluogi dysgwyr i ymgymryd â rolau rheoli yn y sector.

Y cymhwyster cyfatebol presennol a fydd ar gael ym mis Medi 2019: Diploma Lefel 5 City & Guilds mewn Arwain ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant